

# Gwrthrychau hynod



# Gwrthrychau hynod Llyfnwr Iliain

**Llyfnwr Iliain** — mae'r llyfnwr Iliain gwydr hwn yn seiliedig ar enghraifft o'r 12fed–14eg Ganrif a ganfuwyd yng Nghaerwysg. Mae patrymau traul ar enghreifftiau a ganfuwyd yn ystod cloddfeydd archaeolegol yn dangos bod dwy ochr y llyfnwyr yn cael eu defnyddio. Mae'n debyg eu bod yn cael eu defnyddio'n oer, a bod y deunydd i'w lyfnu a'i lathru yn Ilaith. Ar goleri a chyffiau yr oeddent yn cael eu defnyddio fwyaf mae'n siwr.

Mae enwau eraill ar gyfer llyfnwyr Iliain yn cynnwys 'carreg lyfnu', 'llathrwasg' a 'calendr'.



## Sut ydyn ni'n gwybod am lyfnwyr Iliain?

Mae llawer o enghreifftiau wedi'u canfod yn ystod cloddiadau archaeolegol, a chanfuwyd niferoedd sylweddol o lyfnwyr o'r 12fed–14eg Ganrif mewn ardal ddiwydiannol o Winchester, y cyfan ohonynt yn dangos tipyn mwy o draul nag y gallai llyfnu Iliain ei greu, sy'n awgrymu bod y rhain wedi cael eu defnyddio hefyd fel rhan o ddiwydiant canoloesol arall a oedd yn gofyn am lyfnu.



# Gwrthrychau hynod

## Clo clap pres ysgythredig

**Clo clap pres ysgythredig** — byddai'r clo clap bach hwn â dwy ran wedi cael ei ddefnyddio gan rywun o statws uchel i gadw blwch bychan neu gist dan glo. Mae'n debygol y byddai'r math hwn o glo clap pres wedi cael ei ddefnyddio gan rywun cyfoethog gan nad oedd pres yn fetel rhad, a byddai ychwanegu ysgythru wedi ychwanegu at gost y gwrthrych. Byddai pobl dlotach yn fwy tebygol o lawer o fod wedi defnyddio cloeon clap haearn, a fyddai'n llawer rhatach i'w prynu.



### Sut ydyn ni'n gwybod am gloeon clap?

Mae llawer o enghreifftiau wedi'u canfod yn ystod cloddiadau archaeolegol.



# Gwrthrychau hynod

## Pŵl corn

**Pŵl corn** — blaenau pŵl corn ar gyfer saethau. Roedd y rhain yn cael eu gosod ar flaenau saethau pan oedd y saethydd yn hela anifeiliaid neu adar hela bach. Pe bai saeth gyffredin yn taro aderyn byddai wedi'i niweidio gormod i'w goginio. Ond pe bai'n cael ei daro gan saeth bŵl byddai'n cael ei lonyddu, yn disgyn i'r llawr, ac os nad oedd eisoes wedi marw, gallai'r saethydd ei ladd ei hun, yn ofalus.



### Sut ydyn ni'n gwybod am flaenau pŵl saethau?

Darluniau mewn llawysgrifau canoloesol,  
gan gynnwys Luttrell Psalter.



# Gwrthrychau hynod

## Dur tân wedi'i osod ar bres

**Dur tân wedi'i osod ar bres** — yn wreiddiol roedd duroedd tân yn cael eu defnyddio gyda cherrig fflint, ond gellir defnyddio unrhyw graig galed, anrhydylllog sydd ag ymyl finïog, neu hyd yn oed bren petraidd, i greu gwreichion. Daw'r gwreichion wrth sglodi darnau bach o ddur oddi ar y tarwr; bydd darnau mân o fetelau'n cynnau ar unwaith mewn aer, gyda'r dur yn llosgi yn wres melynwyn.

I gynnau tân, mae angen rhywfaint o oloed wedi'i baratoi arnoch i'r gwreichionyn gynnau. Gall hyn fod yn unrhyw ffibr llysiau naturiol bron, fel lliain, cywarch, neu weiriau, chwyn neu ddail sych. Mae cymysgedd o ddau ddeunydd gwahanol yn cynnau'n haws nag un fel arfer. Mae'n well ei dorri'n fân a'i gymysgu'n dda, ac mae angen llond llaw dda arnoch. Pan fydd eich gwreichion wedi dechrau llosgi'r golosged, bydd chwythu'n ysgafn yn achosi'r marworyn i droi yn fflam. Byddai pobl yr Oesoedd Canol yn cario golosged gyda nhw pan fyddent yn teithio.



### Sut ydyn ni'n gwybod am dduroedd tân?

Disgrifiadau a darluniau mewn llawysgrifau canoloesol, a gwrthrychau a ganfuwyd yn ystod cloddfeydd archaeolegol. Mae'r dur tân penodol hwn yn ddehongliad sy'n seiliedig ar enghraifft gynnar o'r Oesoedd Canol, gydag elfennau addurnol wedi'u copïo o enghreifftiau o'r 13eg Ganrif a'r 14eg Ganrif.

# Mystery objects

## Deial haul ffon fugail (deial piler, deial silindrog)

### Deial haul ffon fugail (deial piler, deial silindrog)

— hwn yw un o'r ffurfiau cynharaf o ddeialau haul cludadwy, ac mae'n dyddio'n ôl i oes y Rhufeiniaid o leiaf. Roedd fersiynau'r Canol Oesoedd wedi'u gwneud o bren, ifori neu asgwrn yn wreiddiol. Mae'r llythrennau o amgylch y gwaelod yn cynrychioli misoedd y flwyddyn. Mae'r capan metel ar y pen yn troi, ac i ddweud faint o'r gloch yw hi rhaid i chi osod y ffon, troi hwn nes bod y 'bys' union uwchben y mis o'r flwyddyn, yna codwch y bys nes ei fod yn llorweddog. Daliwch y deial a'i droi nes bod y bys yn wynebu'r haul, a'r cysgod yn disgyn yn fertigol. Plotiwch hyd y cysgod rhwng llinellau'r oriau a'i olrhain yn ôl i'r fan lle mae'r oriau wedi'u marcio. Gan fod y deial hwn yn gweithio drwy blotio codiad a machlud yr haul, mae pob llinell awr yn cynrychioli'r bore neu'r prynhawn. Mae oriau'r bore i'r chwith.



### Sut ydyn ni'n gwybod am ddeialau haul ffon fugail?

Disgrifiadau a darluniau mewn llawysgrifau canoloesol, a gwrthrychau a ganfuwyd yn ystod cloddiadau archaeolegol.

# Gwrthrychau hynod Canhwylbren

**Canhwylbren** — roedd canhwyllau'n cael eu defnyddio ar gyfer golau yn yr Oesoedd Canol, ond hefyd fel rhan o addoli crefyddol, yn enwedig yn yr eglwys Babyddol. Mae arysgrif Lladin ar y ganhwylbren hon, ac mae'n cyfieithu "Bendith Duw ar y rhai sy'n bresennol a'r rhai â'm gwnaeth i". Mae wedi'i gwneud o biwter, felly byddai wedi cael ei defnyddio gan bobl cyfoethog yn hytrach na phobl dlawd, gan mai canhwylbrenni haearn y byddent hwy wedi'u defnyddio'n bennaf.



## Sut ydyn ni'n gwybod am ganhwylbrenni?

Disgrifiadau a darluniau mewn llawysgrifau canoloesol, a gwrthrychau a ganfuwyd yn ystod cloddiadau archaeolegol.